Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Ashbury House**

**Magwyr**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

18/01/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Ashbury House

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Consensus Support Services Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 6 |
| Iaith y gwasanaeth | Cymraeg |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 17 Awst 2022 |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg ac anghenion diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a fydd o bosibl yn defnyddio'r gwasanaeth. |

## Crynodeb

Caiff y bobl eu cefnogi gan dîm o staff gofal sy'n ofalgar, yn dangos dealltwriaeth, ac yn rhoi sylw iddynt. Mae trefniadau ar waith ar gyfer gweithgareddau ac ymweliadau er mwyn hybu llesiant cyffredinol y bobl. Caiff y bobl gyfleoedd i fod yn rhan o'u cymuned leol a chânt eu cefnogi i fynd ar wyliau ac i gyflawni eu potensial. Mae cynlluniau personol ar gael i roi arweiniad i'r staff gofal o ran sut mae'r bobl am gael eu cefnogi. Mae angen rhoi sylw i'r trefniadau rheoli digwyddiadau er mwyn sicrhau y caiff y risgiau posibl i iechyd a llesiant y bobl eu goruchwylio'n well.

Cefnogir y bobl i gyflawni eu canlyniadau personol. Dywedodd y gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n ymweld wrthym fod y staff gofal yn ofalgar ac yn ymatebol. Ar y cyfan, mae'r llety yn hybu llesiant cyffredinol y bobl. Mae angen rhoi sylw i'r trefniadau ar gyfer cynnal gwiriadau iechyd a diogelwch yn yr amgylchedd, yn enwig yn ardal y gegin. Mae angen atgyfnerthu'r systemau ar gyfer rheoli meddyginiaeth y bobl. Caiff y staff gofal eu recriwtio'n ddiogel, ac mae ganddynt wybodaeth dda am weithdrefnau diogelu. Cânt eu cefnogi'n dda gan y tîm rheoli ac mae darparwr y gwasanaeth yn goruchwylio'r gwasanaeth yn dda.

## Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywyd o ddydd i ddydd. Gwelsom fod y bobl yn gyfforddus ac yn gallu ymlacio yn yr ardaloedd cymunedol ac yn eu hystafelloedd gwely cysurus. Caiff y bobl eu cefnogi i wneud y pethau sy'n bwysig iddynt. Dangoswyd yr ardd allanol i ni, a dywedwyd wrthym fod rhai o'r bobl yn hoffi tyfu eu ffrwythau a'u llysiau eu hunain. Mae croeso i deuluoedd a chynrychiolwyr ymweld â'r cartref. Gwelsom aelod o'r staff gofal yn dal dwylo unigolyn er mwyn ei helpu i symud yn ddiogel. Mae gallu rhai o'r bobl i fynegi eu barn ar lafar am y cymorth y maent yn ei gael yn gyfyngedig. Fodd bynnag, drwy arsylwi ar iaith y corff a mynegiant wyneb y bobl, gwelsom eu bod yn gyfforddus ac yn cael sicrwydd gan y staff sy'n eu cefnogi. Mae system gweithwyr allweddol yn helpu'r bobl i gymryd rhan weithredol yn eu trefniadau gofal a chymorth o ddydd i ddydd.

Caiff iechyd a llesiant corfforol eu hybu. Caiff y bobl gymorth i gael gafael ar wasanaethau gofal iechyd pan fo angen. Anogir unigolion i fod yn weithgar ac i gadw eu hunain yn iach. Mae'r gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n ymweld â'r cartref yn canmol y cymorth a ddarperir. Caiff y bobl eu gwerthfawrogi ac mae ganddynt gydberthnasau cadarnhaol, llawn ymddiriedaeth â'r staff gofal. Mae'r cofnodion yn dangos eu bod yn cael y gofal a'r cymorth cywir pan fydd eu hangen arnynt. Gwnaethom edrych ar amrywiaeth o gynlluniau personol a chofnodion gofal cysylltiedig. Mae'r dogfennau gofal yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn cynnwys gwybodaeth am arferion, risgiau, dewisiadau, a hoff bethau a chas bethau. Mae hyn yn cynnwys ystyried anghenion cyfathrebu a dewisiadau iaith y bobl. Caiff y cynlluniau personol eu hadolygu, a gwneir newidiadau. Fodd bynnag, ni chaiff y broses hon bob amser ei chwblhau'n fanwl, ac mae angen gwneud rhai gwelliannau.

Mae mesurau ar waith i gadw'r bobl yn ddiogel. Mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant ar ddiogelu ac yn gwybod sut i weithredu os bydd angen.  Mae'r arferion recriwtio yn sicrhau bod y staff gofal yn cael eu recriwtio'n ddiogel. Mae'r darparwr wedi cwblhau gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y staff gofal. Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn helpu cyflogwyr i sicrhau bod y gwasanaeth yn ddiogel. Mae systemau rheoli meddyginiaeth ar waith; ond mae angen atgyfnerthu rhai meysydd. Mae'r protocolau cywir yn amddiffyn y bobl rhag unrhyw gyfyngiadau diangen ar eu rhyddid.

Mae'r amgylchedd yn lân, yn gynnes ac yn gyfforddus ac mae'r ystafelloedd gwely wedi'u teilwra at yr unigolion. Mae gwiriadau iechyd a diogelwch ar waith, ond mae angen goruchwylio rhai meysydd ymhellach. Dywedwyd wrthym fod trefniadau ar waith i'r gegin gael ei hadnewyddu yn ystod yr wythnosau nesaf. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd, yn ymgysylltu â'r bobl ac yn arsylwi ar ymarfer y staff gofal. Mae polisïau a gweithdrefnau ar waith i gefnogi ymarfer y staff gofal.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael cymorth gofalgar a thosturiol gan nifer digonol o staff gofal. Mae lefel uchel o staff gofal yn bresennol yn y gwasanaeth, ac mae'r bobl yn cael eu cefnogi mewn modd caredig ac ystyriol. Mae'r staff gofal yn gwerthfawrogi'r bobl, a gwelsom ofal a chynhesrwydd gwirioneddol yn cael ei roi ganddynt. Gwelsom y bobl yn cael cymorth i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gymuned. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod wedi rhoi cymorth i bawb sy'n byw yn y gwasanaeth fwynhau penwythnos hir i ffwrdd mewn parc gwyliau yn ddiweddar. Gwelsom enghreifftiau o ryngweithio sensitif a gofalgar drwy gydol ein hymweliad. Mae cyfleoedd i'r bobl gymryd rhan mewn lleoliadau gwaith gwirfoddol.

Mae'r cynlluniau personol yn nodi anghenion cymorth cyffredinol y bobl, ond mae angen rhai gwelliannau i'r prosesau ar gyfer rheoli risg. Caiff y wybodaeth sydd ar gael i roi cyfarwyddyd i'r staff gofal o ran sut yr hoffai'r bobl gael eu gofal ei hadolygu'n rheolaidd. Mae gan y staff gofal ddealltwriaeth dda o'r cymorth sydd ei angen ar y bobl, ac maent yn nodi'r gofal a ddarperir mewn cofnodion dyddiol. Nid oedd un cynllun personol wedi cael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r gofynion cymorth yr oedd eu hangen ar y pryd i reoli risg. Ni chaiff digwyddiadau eu hadolygu'n fanwl er mwyn helpu i reoli risg. Mae hwn yn faes i'w wella, ac rydym yn disgwyl i ddarparwr y gwasanaeth weithredu. Byddwn yn ystyried hyn yn ein harolygiad nesaf.

Mae cyngor a chymorth priodol ar gael i'r bobl i hybu eu hiechyd a'u llesiant emosiynol. Gall y bobl weld meddygon teulu, deintyddion a phodiatregwyr yn rheolaidd pan fo angen. Mae'r cofnodion yn dangos bod apwyntiadau iechyd yn cael eu cofnodi. Dywedodd gweithwyr iechyd proffesiynol sy'n ymweld wrthym fod y staff bob amser yn gwrando ar gyngor, ac yn dilyn unrhyw gyfarwyddiadau. Roedd y sylwadau yn cynnwys, *'Staff are really good, they are great.'* Rhoddir cymorth i'r bobl gadw mewn cysylltiad rheolaidd â theulu a ffrindiau. Mae croeso i ymwelwyr ddod i'r cartref, sy'n cefnogi llesiant emosiynol y bobl. Mae'r bobl yn mwynhau nofio, cefnogi eu tîm pêl-droed lleol a chael cymorth i gadw mewn cysylltiad rheolaidd â'u teuluoedd.

Mae angen gwneud gwelliannau i'r broses o reoli meddyginiaethau. Gwnaethom gwblhau adolygiad rhannol o weithdrefnau meddyginiaeth darparwr y gwasanaeth. Mae polisi meddyginiaeth manwl ar gael sy'n rhoi arweiniad a chymorth. Caiff meddyginiaethau eu storio'n ddiogel ar y cyfan, ond nid yw'r cypyrddau meddyginiaeth yn ystafelloedd y bobl bob amser wedi'u cloi. Mae proses archwilio ar waith wedi'i goruchwylio gan uwch-aelodau o'r staff gofal. Nodwyd gennym fod meddyginaethau yn cael eu rhoi'n briodol ar y cyfan; fodd bynnag, gwelsom rai anghysondebau o ran rheoli meddyginiaethau yn ddiogel. Mae hwn yn faes i'w wella o hyd, ac rydym yn disgwyl i ddarparwr y gwasanaeth weithredu. Byddwn yn ystyried hyn yn ein harolygiad nesaf.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn cael gofal mewn amgylchedd sy'n diwallu eu hanghenion ar y cyfan, ond mae angen gwneud rhai gwelliannau i sicrhau bod llesiant cyffredinol y bobl yn cael ei hybu mewn ffordd gyson. Nodwn fod darparwr y gwasanaeth wedi ailaddurno'r ardaloedd cymunedol yn y cartref a bod lloriau newydd wedi cael eu prynu. Caiff y bobl eu cynnwys wrth ddewis y décor a'r dodrefn personol yn eu hystafelloedd gwely. Mae'r ystafelloedd gwely yn cynnwys eitemau o'u dewis a phethau sy'n bwysig iddynt. Mae cynllun cynnal a chadw parhaus yn dangos buddsoddiad parhaus yn yr amgylchedd.

Mae gwiriadau iechyd a diogelwch ar waith. Caiff gwiriadau dŵr poeth ac oer eu cwblhau. Mae'r ystafell golchi dillad yn lân ac yn daclus. Gwnaethom adolygu asesiad risg tân a gwblhawyd ym mis Mawrth 2021. Nodwyd bod y camau gweithredu wedi'u cwblhau, ond ni chafodd yr asesiad risg ei adolygu'n rheolaidd. Mae gwiriadau tân rheolaidd ar waith, ond nodwyd gennym nad yw'r gwasanaeth yn cymryd camau gweithredu amserol mewn ymateb i unrhyw bryderon a nodir. Caiff cemegion glanhau a allai achosi niwed eu storio mewn uned storio wedi'i chau yn yr ardd gefn, ond nid oedd yr uned hon wedi'i chloi'n ddiogel. Caiff y cyfarpar codi ei wirio'n rheolaidd a'i wasanaethu yn ôl yr angen.

Gosodwyd boeler newydd yn y gegin yn ddiweddar, a chafodd yr ystafell ymolchi ei hadnewyddu'n llwyr. Nodwyd gennym nad oedd rhannau o'r gegin yn cael eu glanhau'n ddigonol. Caiff cofnodion o wiriadau eu cadw, ond ni chânt eu cwblhau mewn modd cyson. Rhoddwyd sgôr hylendid bwyd ‘tair seren’ i'r cartref gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, yn dilyn ymweliad ym mis Hydref 2023. Mae'r sgôr hon yn dangos bod y safonau hylendid yn ‘foddhaol ar y cyfan’. Mae angen datblygu hygyrchedd y gegin, er mwyn i bawb allu ei defnyddio ac er mwyn cynnal sgiliau byw bob dydd y bobl. Nodwyd hyn fel maes i'w wella yn ystod yr arolygiad diwethaf. Mae darparwr y gwasanaeth wedi rhoi sicrwydd bod y gegin ar fin cael ei hailddylunio a'i hadnewyddu'n llwyr. Mae hwn yn faes i'w wella o hyd, a byddwn yn ei ystyried eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae systemau ar waith i fesur ac i fonitro perfformiad y gwasanaeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cwblhau adroddiad bob tri mis sy'n dangos ei fod yn ystyried ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Caiff ansawdd y gofal ei adolygu bob chwe mis a chaiff adroddiad ei lunio. Caiff dogfennau allweddol eu goruchwylio, sy'n sicrhau y caiff tasgau eu cwblhau a'u harchwilio i adolygu cydymffurfiaeth a meysydd i'w gwella. Mae darparwr y gwasanaeth yn cefnogi'r broses ddiogelu ac yn rhoi gwybod i'r awdurdod lleol perthnasol am faterion. Mae polisi diogelu ar waith ac mae'r staff gofal yn deall pryd a sut i roi gwybod am faterion fel y bo angen. Caiff AGC ei hysbysu am ddigwyddiadau; ond, nid oedd y rheoleiddiwr wedi cael gwybod am un digwyddiad diweddar fel roedd angen. Cawsom sicrwydd gan y rheolwr mai camddealltwriaeth oedd hynny. Nid yw'r broses ar gyfer cofnodi a rheoli digwyddiadau yn y gwasanaeth bob amser yn glir.

Mae darparwr y gwasanaeth yn glir ynghylch ei nodau a'i amcanion. Gwnaethom edrych ar datganiad o ddiben. Mae'r datganiad o ddiben yn nodi gweledigaeth y gwasanaeth ac yn dangos yn glir yr amrywiaeth o anghenion y bydd y gwasanaeth yn eu diwallu, gan gynnwys unrhyw wasanaeth/gofal arbenigol a gynigir.  Mae'r datganiad o ddiben yn darparu darlun cyffredinol o'r gwasanaeth a gynigir, gan gynnwys y ‘Cynnig Rhagweithiol’ ar gyfer y Gymraeg a ddarperir.

Mae trefniadau ar waith i ddarparu cymorth rheolaidd i'r staff gofal. Dywedodd y staff gofal wrthym eu bod yn hapus yn eu rolau, eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u bod yn hyderus yn eu dyletswyddau. Maent yn cael sesiynau goruchwylio ffurfiol yn rheolaidd. Caiff cyfarfodydd tîm eu cynnal er mwyn rhannu gwybodaeth berthnasol. Mae'r cofnodion hyfforddiant yn dangos bod hyfforddiant craidd yn cael ei gwblhau. Mae'r staff gofal newydd yn cwblhau rhaglen sefydlu, a chânt gymorth i gofrestru â rheoleiddiwr y gweithlu, Gofal Cymdeithasol Cymru.

Mae trefniadau dethol a fetio addas ar waith i alluogi darparwr y gwasanaeth i wneud penderfyniadau wrth benodi staff gofal. Gwnaethom edrych ar ffeiliau'r staff gofal a gwelsom fod y gwiriadau cyn cyflogi angenrheidiol wedi cael eu cynnal. Gofynnir i ymgeiswyr ddarparu hanesion cyflogaeth. Mae prosesau ar gyfer cadarnhau manylion adnabod a chael geirdaon hefyd yn helpu i sicrhau bod staff gofal unigol yn addas i weithio yn y gwasanaeth.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 15 | Sicrhau bod y cynlluniau personol yn ystyried unrhyw risgiau i lesiant yr unigolyn. | Newydd |
| 58 | Sicrhau bod trefniadau ar waith er mwyn rhoi meddyginiaethau yn ddiogel. | Heb Gyflawni |
| 48 | Sicrhau bod y cyfleusterau ar gyfer darparu'r gwasanaeth yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol. | Heb Gyflawni |
| 36 | Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn cael sesiynau goruchwylio ac arfarniadau priodol | Cyflawnwyd |
| 35 | Sicrhau bod unrhyw berson sy'n gweithio yn y gwasanaeth wedi darparu gwybodaeth neu ddogfennaeth foddhaol mewn perthynas â phob mater a ddynodir yn Rhan 1 o Atodlen 1 | Cyflawnwyd |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 18/03/2024